Newyddion gan Ddiogelwch y Ffyrdd Cymru

" Beth sy'n digwydd ym myd diogelwch ar y ffyrdd? " **Ebrill 2009 — Rhifyn 12**

Yn y Rhifyn Hwn:

•Y Lolipop Gorau •Gwobrau Diogelwch ar y Ffyrdd •Cynllun Teithio Cynaladwy i'r Ddinas
•Siacedi Beicwyr 'Motoair' • Cynllun Gweithredu ar Gerdded a Seiclo
•Prawf dwy-ran newydd i yrwyr beiciau modur •Gyrwyr Di-yswiriant
• Addasu Cyflymdra'n Ddeallus • Dirwyo yn y Fan a'r Lle

Y Lolipop Gorau – Pleidleisiwyd mai George Bateman yw'r Gorau yng Nghymru!

George Bateman, hebryngwr croesfan ysgol ym Mhontardawe, sydd wedi'i gydnabod yn 'Lolipop Gorau' Cymru yn dilyn ymgais flynyddol Kwik Fit Insurance i ddod o hyd i Berson Lolipop y Flwyddyn ym Mhrydain.

Fe lansiodd Kwik Fit Insurance wobrau Person Lolipop y Flwyddyn gyda chymorth y seren deledu, Lorraine Kelly, yn ddiweddar. Mae'r gwobrau ar eu pumed flwyddyn erbyn hyn ac wedi llwyddo'n aruthrol gan i fwy na 15,000 o enwebiadau lifo i mewn oddi wrth ddisgyblion ysgolion cynradd, athrawon, cynghorau ysgol, rhieni ac aelodau o'r gymuned ledled Prydain.

Er gwaetha'r cystadlu mawr, George (84) enillodd wobr ranbarthol Cymru, sef £500 mewn talebau teithio iddo'i hun, £100 mewn talebau llyfrau i'w ysgol, a thlws arian ar siâp lolipop ac engrafiad arbennig arno. Mae George, sy'n cael ei gyflogi gan Dîm Diogelwch y Ffyrdd Castell-nedd Port Talbot ac yn hebrwng plant y tu allan i Ysgol Gymraeg Pontardawe ers 14 blynedd, yn falch iawn o fod wedi'i gydnabod. Dangosodd ymgais llawer disgybl o'i blaid greadigedd mawr, gan gynnwys cerddi, peintiadau a lluniadau sy'n canmol ei waith da.

Meddai George: "Mae nifer a safon pleidleisiau'r disgyblion, y rhieni a'r athrawon wedi fy syfrdanu. Mae'r Ysgol Gymraeg wedi gwneud ymdrech fawr wrth f'enwebu i - a dim ond am y gwaith y bydda i'n ei wneud bob dydd. Rwy'n dwlu ar y gwaith. Mae'n braf iawn gweld y plant yn tyfu ac rwy' wrth fy modd o gael fy nghydnabod yn hebryngwr gorau Cymru.
"Mae sicrhau bod y plant yn cyrraedd yr ysgol yn ddiogel yn gyfrifoldeb mawr a rhan o 'ngwaith yw ennyn ymddiriedaeth a pharch y plant. Mae'n braf iawn clywed bod gan y plant feddwl mawr ohono i."

Ychwanegodd Myfanwy Rees, Prifathrawes yr Ysgol Gymraeg: "Gan i'n disgyblion ni wneud ymdrech aruthrol i enwebu George am y wobr, mae'n wych gweld gwobrwyo'u gwaith caled fel hyn.
"Mae pawb yn yr ysgol yn dwlu ar George. Mae'n gwneud gwaith arbennig wrth ofalu am ein disgyblion ac mae'n aelod pwysig iawn o deulu'n hysgol ni."

I gael gwybod rhagor am Wobrau Person Lolipop y Flwyddyn 2008 gan Kwik Fit Insurance, ewch i **www.bestlollipop.co.uk.**

Gwobrau Diogelwch ar y Ffyrdd 2009

Mae Gwobrau blynyddol Diogelwch Ffyrdd Cymru yn cydnabod arferion da, prosiectau arloesol a chyfraniadau personol i ddiogelwch ar y ffyrdd yng Nghymru. Bydd Cynllun y Gwobrau'n rhoi cyhoeddusrwydd i'r cyfraniadau i'r targedau i ostwng nifer yr anafedigion ar y ffyrdd ac yn cynyddu'r ymwybyddiaeth o'r cyfraniadau hynny.

Dylid cyflwyno enwebiadau (ynghyd ag unrhyw ddeunydd ategol perthnasol) ar y ffurflen erbyn **dydd Gwener 21 August 2009** fan bellaf. Caiff enillwyr y Gwobrau wahoddiad i dderbyn eu Gwobr yng nghinio Cynhadledd Diogelwch Ffyrdd Cymru ddydd Llun 28 Medi yng Ngwesty'r Celt, Caernarfon. Caiff enillwyr y gwobrau £100 a chofrodd.

Llwythwch y Ffurflen Enwebu i lawr **yma**

Cynllun Teithio Cynaladwy i'r Ddinas



Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi dewis Caerdydd i fod yn "dref deithio gynaliadwy" gyntaf Cymru. Nod y cynllun, a fydd yn costio £28.5m, yw darparu trefn llogi beiciau am ddim, teithio ar fysiau o amgylch canol y ddinas am ddim, a gwella'r llwybrau seiclo a cherdded.
Caiff y ddinas gyllid gan y llywodraeth a'r cyngor sir dros y ddwy flynedd nesaf.
Bydd yr arian yn talu am wella cludiant cyhoeddus ac yn cynnwys creu cyfleuster parcio a theithio newydd.
Os bydd y cynllun yn llwyddo, gallai hefyd gael ei roi ar waith mewn rhannau eraill o Gymru.

Bydd y cynlluniau'n cynnwys cyflwyno rhedeg bysiau gwennol ar daith gylch am ddim yng nghanol y ddinas, llogi beiciau am ddim, cyfleusterau parcio a theithio newydd ym Mhen-twyn i wasanaethu ochr ddwyreiniol y ddinas, a mesurau i daclo tagfeydd.

Bydd yr arian hefyd yn talu am godi Pont-y-Werin i gerddwyr a beicwyr ar draws afon Elái rhwng pentref chwaraeon Caerdydd a Phenarth. Gobaith y cyngor yw cynnwys camau pellach ar ôl i'r cynllun dwy-flynedd cychwynnol gael ei gwblhau.

Prif Bwyntiau'r Cynllun

- Gwasanaeth bws gwennol am ddim yng nghanol y ddinas
- Cyfleuster parcio a theithio newydd ym Mhen-twyn
- Gwell llwybrau seiclo a cherdded
- Y caniatâd terfynol i godi Pont-y-Werin i gerddwyr a beiciau dros afon Elái rhwng Penarth a'r Pentref Chwaraeon

Am ddwy flynedd, i gychwyn, caiff y fenter £14.5m gan Lywodraeth y Cynulliad a £14m gan Gyngor Caerdydd, a gobaith y cyngor yw cynnwys camau pellach ohoni wedi hynny.
Wrth gyhoeddi'r arian, dywedodd y gweinidog dros gludiant, Ieuan Wyn Jones: "Mae lefelau cymudo yng Nghaerdydd ac o'i chwmpas wedi cynyddu'n sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.
"Mae hwn yn gyfle cyffrous i ddatblygu a gweithredu amrywiaeth o bosibiliadau trafnidiaeth arloesol a fydd o fantais i'r 210,000 o bobl sy'n teithio i mewn i'r ddinas bob dydd.
"Bydd y cynllun hefyd yn cefnogi ein cynllun gweithredu ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol, sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd."
Ymhlith y gwelliannau i'r seilwaith mae datblygu gwell coridorau bws a gwneud y Stryd Fawr a Heol Fair yn ardal gerdded yn y dyfodol. Bydd ysgogiadau hefyd i deithio'n gynaliadwy, i drefnu clybiau ceir, cynlluniau rhannu teithiau a llogi beiciau am ddim.

Yn ôl Jane Davidson, y gweinidog dros yr amgylchedd a chynaliadwyedd, bydd y cynllun o les i iechyd ac yn lleddfu tagfeydd wrth i'r defnydd o fysiau a beiciau gynyddu ac i nifer y ceir ar y ffyrdd ostwng.
"Rydyn ni'n llawer rhy ddibynnol ar y car ac mae angen inni ystyried ffyrdd eraill, gwyrddach o deithio, meddai.

Motoair yn cyrraedd Prydain

Mae'r gyfres chwyldroadol o siacedi beicwyr Motoair, sy'n cynnwys system bag aer personol ac unigryw, eisoes wedi arbed beicwyr modur yn yr Unol Daleithiau rhag cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol. Mae hi'n awr ar gael ym Mhrydain am y tro cyntaf oddi wrth Wairbag.com

Mae gwisgo a gweithredu'r siaced yn syml. Mae arni gortyn sy'n clipio'n uniongyrchol ar y beic modur, ac os caiff y beiciwr modur ei daflu oddi ar y beic, bydd cetrisen fach o CO_2 yn llenwi'r siaced mewn cyn lleied â 0.2 o eiliad. Felly, caiff y beiciwr modur fag aer cryf a chadarn i amddiffyn prif ran ei gorff cyn iddo daro cerbyd arall neu

lanio ar wyneb y ffordd. Bydd y siaced yn amddiffyn y frest, yr asennau ochr a'r cefn, ac yn gynhaliaeth gadarnach i'r gwddf a'r meingefn.

Cewch weld fideo arddangos yma

Cynllun Llywodraeth y Cynulliad i gael pobl Cymru i Gerdded a Seiclo

Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn esbonio sut mae Llywodraeth y Cynulliad a'i phartneriaid yn cefnogi cerdded a seiclo yng Nghymru. Wrth lansio'r cynllun yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, tanlinellodd Dirprwy Brif Weinidog Cymru, Ieuan Wyn Jones, a'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Jane Davidson, pa mor bwysig yw'r fenter.

Datgelodd Jane Davidson dargedau newydd hefyd:

Byddwn ni'n mynd ati i annog pobl i newid sut maen nhw'n teithio i'r gwaith neu'n casglu'r plant o'r ysgol. Ar hyn o bryd, dim ond 39% o blant sy'n cerdded i'r ysgol. Erbyn 2013, rydw i am weld y ffigur hwn yn cynyddu i 46% o leiaf, sef y ffigur cyfartalog ar gyfer y DU. Dim ond 10% o oedolion sy'n cerdded i'r gwaith, ac erbyn 2013 rydw i am weld hyn yn dyblu i 20%. Rydw i hefyd am dreblu nifer y bobl sy'n beicio i'r gwaith.

Mae'r Cynllun Gweithredu Cerdded a Beicio yn nodi nifer o gamau gweithredu, gan gynnwys:

- Rhoi blaenoriaeth i gerdded a beicio wrth fuddsoddi mewn trafnidiaeth gyhoeddus
- Annog cyflogwyr i gynnig cymhellion i weithwyr; er enghraifft, trwy gynlluniau prynu beic yn ddi-dreth a defnyddio cyfradd treuliau'r filltir ar gyfer beicio
- Darparu hyfforddiant ar gyfer hyfforddwyr beicio a chyflwyno Safonau Cenedlaethol hyfforddiant beicio.
- Gwneud yn siŵr bod awdurdodau lleol yn darparu ac yn cynnal llwybrau a chyfleusterau o ansawdd da i feicwyr
- Cynyddu nifer y llwybrau cerdded di-draffig i ysgolion a gweithleoedd trwy barhau â Rhaglen Llwybrau Diogel mewn Cymunedau Llywodraeth y Cynulliad
- Defnyddio Cyllid gan yr UE i wella ansawdd y cynnyrch twristiaeth i feicwyr a cherddwyr
- Agor Llwybr Arfordir Cymru gyfan, gan gynnwys darpariaeth i feicwyr mewn mannau priodol, i'w gwblhau erbyn y Gemau Olympaidd yn 2012
- Pob awdurdod lleol i roi Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy ar waith
- Cyflwyno'r prosiect Tref Teithio Gynaliadwy yng Nghymru

Llwythwch y Cynllun Gweithredu i lawr o
http://wales.gov.uk/docs/desh/publications/090223walkingactionplancy.pdf

Prawf dwy-ran newydd i yrwyr beiciau modur

Yn dilyn eu papur ymgynghorol ym mis Tachwedd 2008, mae Gweinidogion wedi cyhoeddi eu penderfyniad i gynnwys prawf ymarferol a modiwlaidd mewn dwy ran i yrwyr beiciau modur. Yn lle'r prawf ymarferol presennol, cynhelir prawf newydd mewn dau fodiwl:

- Bydd **Modiwl 1** yn cynnwys yr elfen benodedig o symudiadau, a chaiff ei gynnal oddi ar y ffyrdd mewn canolfannau arholi arbenigol. Bydd yn cynnwys ymarferion a fydd wedi'u cynllunio i asesu gallu'r beiciwr i reoli beic yn ddiogel, gan gynnwys ymarferion osgoi ac ymarferion stopio brys
- Bydd **Modiwl 2** yn cynnwys prawf ar olwg ac o leiaf 30 munud o feicio ar y ffyrdd i asesu gallu'r beiciwr i ryngweithio'n ddiogel â defnyddwyr eraill y ffyrdd.

Dechreuwyd cymryd enwau ar gyfer y prawf o 30 Mawrth 2009 ymlaen a chaiff y profion cyntaf eu cynnal ar Ebrill 27.

Meddai Prif Weithredwr y DSA, Rosemary Thew: "Rydyn ni wedi gwrando ar y diwydiant beiciau modur a thrwy gyflwyno prawf mewn dwy ran gallwn ni gynnig rhagor o leoliadau i gynnal y profion ohonyn nhw ac ymagwedd gytbwys at ddysgu beicio fesul cam. Caiff yr ymgeiswyr amser i ymgyfarwyddo'n drylwyr â phob un o'r camau pwysig."

Cewch ragor o fanylion am y prawf dwy-ran newydd, a lleoliadau'r canolfannau prawf, ar wefan y DSA. I gael cyngor RoSPA ynghylch gyrru beic modur a diogelwch ar y ffyrdd, ewch i'r wefan.

Gweithredu llym newydd yn golygu nad oes gan yrwyr di-yswiriant unman i guddio

Mae'r Gweinidog dros Ddiogelwch ar y Ffyrdd, Jim Fitzpatrick, wedi cyhoeddi pwerau newydd llym i daclo'r lleiafrif hunanol o yrwyr di-yswiriant sy'n costio £400m y flwyddyn i'r modurwyr sy'n cydymffurfio â'r gyfraith.

Gan fod y mesurau newydd yn ei gwneud hi'n drosedd cadw cerbyd di-yswiriant – yn hytrach na dim ond gyrru heb yswiriant – bydd hi'n haws dal gyrwyr di-yswiriant a'u cadw oddi ar y ffordd.

Meddai Jim Fitzpatrick:

"Mae'r lleiafrif hunanol o fodurwyr sy'n gwrthod yswirio'u ceir yn codi'r taliadau premiwm i fodurwyr eraill ac yn lladd neu'n anafu miloedd o bobl bob blwyddyn.

"Oherwydd y cynnydd ym mhwerau'r heddlu, caiff dros 400 o gerbydau di-yswiriant eu cipio bob dydd, ac oherwydd y mesurau newydd a llym hyn, fydd gan yrwyr di-yswiriant ddim unman i guddio."

O dan y drefn newydd:

- Bydd y DVLA yn gweithio mewn partneriaeth â'r diwydiant yswiriant i adnabod cerbydau di-yswiriant

- Caiff modurwyr lythyr i ddweud wrthynt ei bod hi'n ymddangos nad oes yswiriant ar eu cerbyd, ac i'w rhybuddio y cânt ddirwy os na fyddant yn ei yswirio cyn pen hyn a hyn o amser

- Os bydd ceidwad y cerbyd yn methu â'i yswirio, caiff £100 o ddirwy

- Os bydd y cerbyd yn dal i fod heb ei yswirio – p'un a gaiff y ddirwy ei thalu neu beidio – gallai gael ei gipio a'i ddinistrio.

Bydd gyrru heb yswiriant yn ychwanegu rhyw £30 y flwyddyn at bremiwm yswiriant pob modurwr, sef dros £400m y flwyddyn mewn taliadau premiwm ychwanegol. Amcangyfrifir bod gyrwyr di-yswiriant, a gyrwyr nad oes modd dod o hyd iddynt, yn lladd 160 o bobl ac yn anafu 23,000 bob blwyddyn.

Mae'r Llywodraeth eisoes wedi rhoi pwerau i'r heddlu i gipio a dinistrio cerbydau sy'n cael eu gyrru heb yswiriant, ac wedi hwyluso mynediad yr heddlu i'r Gronfa Ddata Yswiriant Modur er mwyn cynyddu eu gallu i ganfod gyrru di-yswiriant drwy ddefnyddio offer Adnabod Platiau Rhif yn Awtomatig. Cipiodd yr heddlu ryw 150,000 o gerbydau yn 2007 – dros 400 y dydd.

Y llynedd, cyflwynwyd trosedd newydd, sef achosi marwolaeth wrth yrru heb drwydded, ar ôl colli trwydded neu heb yswiriant.

Adroddiad ar Addasu Cyflymdra'n Ddeallus

Yn 2007, cyd-benderfyniad y Comisiwn Cludiant Integredig (y CfIT) a Fforwm y Modurwyr (yr MF) oedd ystyried faint o effaith a gâi cyflwyno gwirfoddol ar system Addasu Cyflymdra'n Ddeallus (ISA) ar y ffyrdd o ran cwtogi ar farwolaethau ac anafiadau ar draws holl rwydwaith ffyrdd Prydain ac o ran cwtogi ar allyriadau carbon, allyrru llygryddion eraill a chwtogi ar ddefnyddio tanwydd.

The Comisiynwyd Sefydliad Astudiaethau Trafnidiaeth Prifysgol Leeds i gyflwyno adroddiad ar y mater.

Mae'r adroddiad ar gael ar-lein, a'i deitl yw Speed Limit Adherence and its Effect on Road Safety and Climate Change

Dirwyo yn y Fan a'r Lle

O dan ddeddfwriaeth newydd a gyflwynwyd ar 1 Ebrill, bydd rhaid i yrwyr tramor dalu dirwyon o hyd at £900 yn y fan a'r lle am dorri deddfau traffig. Os nad oes ganddynt ddigon o arian parod, neu gerdyn credyd sy'n gweithio, caiff eu cerbydau eu clampio tan iddynt dalu – a byddant yn wynebu ffi ryddhau o £80 ar ben hynny.

Bydd y ddeddf hefyd yn gymwys i breswylwyr Prydeinig sy'n methu â phrofi ar fin y ffordd fod ganddynt gyfeiriad dilys ym Mhrydain. "Blaendaliadau" fydd y disgrifiad swyddogol o'r dirwyon oherwydd y caiff yr arian ei ad-dalu os aiff y gyrrwr i'r llys a'i gael yn ddieuog. Yn ymarferol, prin iawn yw'r gyrwyr o dramor sy'n debyg o ddychwelyd i Brydain i ymladd eu hachos.

Anaml y caiff gyrwyr o dramor eu herlyn am na all yr heddlu ddwyn achos yn eu herbyn os methant ag ymateb i wŷs. Yn lle hynny, bydd swyddogion yn aml yn rhoi rhybuddion llafar yn unig.

Bob blwyddyn, daw tair miliwn o gerbydau sydd wedi'u cofrestru dramor i Brydain. Cerbydau o wlad Pwyl yw 36 y cant ohonynt, rhai o Ffrainc yw 10 y cant a rhai o'r Almaen yw 9 y cant.

Yn ôl ymchwil gan Gynghorau Llundain, mae cerbyd o dramor 30 y cant yn fwy tebyg o fod mewn gwrthdrawiad na cherbyd sydd wedi'i gofrestru ym Mhrydain,. Gwelwyd cynnydd o 47 y cant rhwng 2002 a 2007 yn nifer y gwrthdrawiadau a achoswyd gan gerbydau tramor. Yn 2007 yr oedd bron 400 o farwolaethau ac anafiadau difrifol a 3,000 o fân anafiadau mewn damweiniau a gynhwysai gerbydau tramor.

Rhan o ddiben y ddeddf newydd yw taclo problem y gyrwyr lorïau o dramor sy'n anwybyddu'r cyfyngiadau ar bwysau ac ar oriau gyrru, ac sy'n gyrru â breciau diffygiol. Am bob milltir a deithiant, mae lorïau o dramor deirgwaith yn fwy tebyg o fod mewn gwrthdrawiad na lorïau o Brydain, yn ôl astudiaeth gan y diwydiant yswiriant yn 2007. Pan gynhaliwyd gwiriadau dirybudd yng Nghaergybi ym Môn yn ddiweddar, cafwyd bod tri-chwarter y lorïau a fethodd y profion diogelwch wedi'u cofrestru dramor.

Bydd gan arolygwyr yr Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr, sy'n gorfodi'r rheolau ynghylch diogelwch lorïau, yr un pwerau â'r heddlu i fynnu bod gyrwyr yn talu blaendaliadau, ac i glampio cerbydau'r rhai sy'n methu â thalu. Bydd gyrwyr a welir yn cyflawni mwy nag un trosedd yn talu hyd at £900 ar fin y ffordd.

Y blaendal safonol ar gyfer trosedd gyrru'n ddiofal – gan gynnwys gyrru'n rhy agos at y cerbyd o'u blaen neu ddarllen map wrth y llyw – fydd £300. Y blaendaliadau am droseddau goryrru a defnyddio ffonau symudol yn y dwylo fydd £60, yn unol â'r cosbau penodedig presennol. Ond yn wahanol i yrwyr o Brydain, ni chaiff pwyntiau cosb eu hychwanegu at drwyddedau gyrwyr o dramor.

Croesawyd y newid gan Richard Brunstrom, prif gwnstabl Gogledd Cymru a llefarydd cenedlaethol yr heddlu ar orfodi deddfau traffig. Meddai: "Bydd hyn yn fodd i'r heddlu orfodi'r gyfraith yn deg ac yn gyson, o ble bynnag y daw'r gyrwyr."

Y disgwyl yw i gynllun gorfodi gwahanol gan yr Undeb Ewropeaidd ganiatáu i'r heddlu, yn y pen draw, ddirwyo gyrwyr tramor a gaiff eu dal gan gamerâu cyflymdra a chamerâu wrth oleuadau coch.

Cysylltwch â'r Golygydd

Hawlfraint © 2009 gan RoSPA Cymru - Cedwir Pob Hawl

Golygydd: Steve Baker, RoSPA
sbaker@rospa.com

02920 250 600